



At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Gorffennaf
2012

Rhif Union: 01824712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 10 GORFFENNAF 2012 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaid

AGENDA

RHAN I – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYNS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 16)

Derbyn cofnodion –

- (a) Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 15 Mai 2012 (copi'n amgaeëdig), a
- (b) Cyfarfod arferol y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 22 Mai 2012 (copi'n amgaeëdig).

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, yn cael ei datgelu.

5 PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: UCHELGAIS ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL

Cyfweld ymgeiswyr ac ystyried penodi i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Bydd y Panel Penodi Arbennig, ar 9 Gorffennaf 2012, yn penderfynu ar nifer yr ymgeiswyr i gael eu cyfweld.

RHAN 1 (SESIWN AGORED)

6 DIWEDDARIAD AR GYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH (Tudalennau 17 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth (copi'n amgaeëdig) yn diweddaru'r aelodau ar y Cynllun Datblygu Lleol ac yn gofyn am awdurdod i Arweinwyr Grwpiau oruchwylia a monitro gwaith a ymgymrir mewn ymateb i Ddarganfyddiadau'r Arolygydd.

7 ALLDRO REFENIW TERFYNOL 2011/12 (Tudalennau 31 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r alldro refeniw terfynol ar gyfer 2011/12 a thriniaeth cronfeydd wrth gefn a balansau fel y manylwyd yn yr adroddiad.

8 PENODI AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL (Tudalennau 43 - 44)

Ystyried adroddiad gan Benhaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaidd (copi'n amgaeëdig) ar benodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

9 COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL CYMRU – PAPUR YMGYGHORI AR BOLISI MAINT CYNGHORAU (Tudalennau 45 - 54)

Ystyried adroddiad gan Benhaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo ymateb ymgynghorol drafft i gynigion polisi'r Comisiwn i gyflwyno maint cyngor.

10 ADRODDIAD CYNGOR BLYNYDDOL: GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2011/2012 (Tudalennau 55 - 86)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo blaenoriaethau asesu a gwella'r Cyfarwyddwr ar gyfer 2012/13.

11 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR AT Y DYFODOL (Tudalennau 87 - 90)

I ystyried Rhaglen Waith y Cyngor at y dyfodol (copi'n amgaeedig).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Ian Armstrong	Gwyneth Kensler
Raymond Bartley	Geraint Lloyd-Williams
Brian Blakeley	Margaret McCarroll
Joan Butterfield	Jason McLellan
Jeanette Chamberlain-Jones	Barry Mellor
William Cowie	Win Mullen-James
Ann Davies	Bob Murray
James Davies	Peter Owen
Meirick Davies	Dewi Owens
Richard Davies	Merfyn Parry
Stuart Davies	Allan Pennington
Peter Duffy	Arwel Roberts
Peter Arnold Evans	Gareth Sandilands
Hugh Evans	David Simmons
Bobby Feeley	Barbara Smith
Carys Guy-Davies	David Smith
Huw Hilditch-Roberts	Bill Tasker
Martyn Holland	Julian Thompson-Hill
Colin Hughes	Joe Welch
Rhys Hughes	Cefyn Williams
Hugh Irving	Cheryl Williams
Alice Jones	Eryl Williams
Huw Jones	Huw Williams
Pat Jones	

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 4

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambrau y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 15 Mai 2012 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Allan Pennington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Les a Chynllunio (SE); Pennaeth Gwasanaehau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Peter Duffy, Barry Mellor, Bill Tasker a Cefyn Williams

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol na buddiant a fyddai'n rhagfarnu.

3 CADEIRYDD I'R CYNGOR SIR

Fe draddododd y Cadeirydd sy'n ymddeol, y Cyngorydd William Cowie, arraith ac ynddi fe edrychodd yn ôl ar ei amser fel Cadeirydd gan amlyu nifer o ddigwyddiadau'r oedd wedi eu mynychu yn y deuddeng mis diwethaf. Y digwyddiad a roddodd y balchder mwyaf iddo oedd rhoi rhyddfaint Sir Ddinbych i'r Ffiwsilwyr Cymreig. Manteisiodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol ar y cyfle i ddiolch i'w gyd-gyngorwyr am eu cefnogaeth ynghyd â'r Prif Weithredwr a'i staff. Rhoddodd deyrnged i waith y cyn Arweinydd, y Cyngorydd Hugh Evans a'r Cabinet ar eu cyflawniadau. Rhoddyd diolch arbennig i'r Is-gadeirydd, y Cyngorydd Jeanette Chamberlain Jones, ei Gymar, Denise Hodgkinson ac Eleri Woolford, Rheolwr Cymorth a Datblygu Aelodau. Yn olaf diolchodd i'r tîm cyfieithu am eu gwaith caled.

Cyflwynodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol sieciau am arian a godwyd yn ystod ei amser fel Cadeirydd i'w elusennau dewisol – Hosbis Sant Cyndeyrn a Chanolfan Ganser Llanelwy a Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyflwynodd roddion

hefyd i'w Gaplan, y Parchedig Val Rowlands, ei Gymar a'r Rheolwr Cymorth a Datblygu Aelodau i gydnabod eu cefnogaeth yn y deuddeng mis diwethaf.

Yma gofynnodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Cyngor Sir yn 2012/13. Cynigiodd y Cyngorydd Joan Butterfield y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones i'w hethol yn Gadeirydd gan amlinellu'r priodweddu personol a'r profiad y byddai'n eu dwyn i'r swydd. Fe eiliwyd y cynnig gan y Cyngorydd Raymond Bartley gan ychwanegu y byddai'n llysgennad ardderchog i Sir Ddinbych. Gan na chafwyd unrhyw enwebiadau pellach ac yn dilyn pleidlais gudd cafodd y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones ei hethol yn unfrydol yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn ddinesig 2012/13.

Mynegodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol ei ddymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol i'r Cadeirydd a oedd yn ei olynu ac fe'i hurddodd â Chadwyn Swydd y Cadeirydd ac yna fe gwblhaodd hithau ei Datganiad yn Derbyn y Swydd. Fe urddodd Cymar y Cadeirydd a oedd yn ymddeol Gymar y Cadeirydd newydd â Chadwyn y Swydd. Rhoddodd y Cadeirydd a oedd yn olynu deyrnged i'r gwaith a wnaethpwyd gan y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, ac fe'i cyflwynodd â bathodyn y Cyn-gadeirydd, plac ac anrheg ar ran y Cyngor.

Fe enwodd y Cadeirydd a oedd yn dod i mewn y Canon John Glover yn Gaplan iddi am y flwyddyn a dywedodd beth oedd ei helusennau dewisol – Hosbis Sant Cyndeyrn, Llanelwy; Vision Support, a Bad Achub y Rhyl. I gloi rhoddodd ei llonyfarchion i'r cynghorwyr a oedd yn dychwelyd a'r cynghorwyr newydd ar eu llwyddiant yn yr etholiadau diweddar gan ddweud ei bod yn edrych ymlaen at weithio efo nhw i gyd yn ystod y flwyddyn i ddod.

4 IS-GADEIRYDD I'R CYNGOR SIR

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer penodi Is-gadeirydd.

Cynigiodd y Cyngorydd Hugh Evans bod y Cyngorydd Raymond Bartley yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn ddinesig 2012/13. Cyfeiriodd at brofiad eang y Cyngorydd Bartley a'i waith diflino yn y gymuned. Fe eiliwyd yr enwebiad gan y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts gan ychwanegu y byddai'n llysgennad ardderchog i Sir Ddinbych. Gan na chafwyd unrhyw enwebiadau pellach ac yn dilyn pleidlais gudd, cafodd y Cyngorydd Raymond Bartley ei enwebu'n unfrydol yn Is-gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn ddinesig 2012/13.

Fe urddodd y Cadeirydd y Cyngorydd Bartley â Chadwyn Swydd yr Is-gadeirydd ac yna fe gwblhaodd ei Ddatganiad yn Derbyn y Swydd.

Yma rhoddodd Arweinyddion Grwpiau deyrnged i waith y Cadeirydd a oedd yn ymddeol yn y deuddeng mis diwethaf a llonyfarchion i'r Cynghorwyr Chamberlain-Jones a Bartley ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd yn ôl eu trefn.

5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

6 ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR SIR

Dyweddodd y Cadeirydd fod un enwebiad wedi ei dderbyn ar gyfer penodi Arweinydd y Cyngor. Cynigiodd y Cyngorydd Stuart Davies ac fe eiliodd y Cyngorydd Eryl Williams y Cyngorydd Hugh Evans i'w ethol yn Arweinydd y Cyngor. Cyfeiriodd y ddau at y Cyngorydd Evans fel Arweinydd eithriadol gan amlygu ei gyflawniadau yn ystod y weinyddiaeth flaenorol a'u hyder y byddai'n arwain yr awdurdod i lwyddiant pellach.

Diolchodd y Cyngorydd Evans i'w gyd-gynghorwyr am ei gynnig yn Arweinydd gan ddweud y byddai'n gweithio i barhau i wella ac ymgyrraedd tuag at ragoriaeth drwy arloesi a chymhwysiad ymarferol cyflenwad gwasanaeth. Fe adlewyrchodd ar waith yr awdurdod yn y blynnyddoedd diwethaf ac amlygu ei lwyddiannau mewn meysydd fel addysg, priffyrd ac ailgylchu. Wrth fynegi ei weledigaeth ar gyfer yr awdurdod yn y dyfodol, dywedodd y Cyngorydd Evans fod yna le i wella er bod Sir Ddinbych wedi mwynhau cymaint o lwyddiant yn y blynnyddoedd diwethaf. Fe ymhelaethodd ar y tri maes cyfrifoldeb allweddol i ganolbwytio arnyn nhw yn y dyfodol ynghyd â nifer o gynigion i sicrhau'r gwelliant hwnnw o ran –

- (1) Ymrwymiad a Dealltwriaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol
- (2) Ffyrrd Mewnol o Weithio
- (3) Disgwyliadau'r Gymuned – dod yn nes at ein cymunedau

Fe glodd y Cyngorydd Evans ei gyflwyniad drwy ddweud y byddai'r awdurdod yn wynebu llawer o sialensiau ond roedd mewn sefyllfa dda i ddelio â'r sialensiau hynny a chynnal safle'r Cyngor fel awdurdod sy'n perfformio'n dda. Wrth derfynu ei anerchiad rhoddodd y Cyngorydd Evans beth gwybodaeth gefndir bersonol yn amlygu ei gysylltiadau cryf â Sir Ddinbych a cheisiodd gefnogaeth aelodau i'w etholiad yn Arweinydd.

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor cynhaliwyd pleidlais gudd ac fe etholwyd y Cyngorydd Hugh Evans yn unfrydol yn Arweinydd y Cyngor. Diolchodd yr Arweinydd i'r aelodau am eu cefnogaeth gan ddweud y byddai'n gweithio'n galed iawn ar eu rhan.

7 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 28, 2012.

Materion yn Codi –

Tudalen 8 - Eitem Rhif 9 Hysbysiad o Gynnig - roedd Aelodau wedi gofyn yn flaenorol am geisio cefnogaeth Aelodau'r Cynulliad i ddarpariaeth dai'r Cyngor fel y'i nodir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a mynegodd y Cyngorydd Eryl Williams ei bryder ynglŷn â'r oedi gyda chael ymateb i'r mater pwysig hwn. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ganfod a gafwyd cefnogaeth gan Aelodau'r Cynulliad ac fe ymddiheurodd am yr oedi ynglŷn â hynny. Gofynnodd y Cyngorydd Williams am ymateb erbyn diwedd yr wythnos.

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar Fawrth 27, 2012.

Materion yn Codi -

Tudalen 18 – Eitem Rhif 6 Cyfeiriodd y Cyngorydd Meirick Davies at gyfeiriad yn y penderfyniad i gytuno ar opsiwn a oedd wedi ei osod allan yn yr adroddiad a theimlai na fyddai'r wybodaeth ar gael yn rhwydd gan ei bod wedi ei chynnwys mewn dogfen ar wahân. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod cyfeirio dogfennau a oedd ar gael yn rhwydd yn digwydd yn arferol gan fod y cofnodion ar wefan y Cyngor.

Tudalen 19 – Eitem Rhif 7 Cynllun Cyfalaf 2011/12 – 2014/15 – O ran ei sylwadau blaenorol ynglŷn â chaffael eiddo ar Bromenâd y Rhyl, roedd y Cyngorydd Meirick Davies yn cefnogi'r angen i ddymchwel yr adeilad dan sylw oherwydd ei stad adfeiliadol ond rhybuddiodd fod yn rhaid i'r Cyngor sicrhau y byddai unrhyw adeilad yn ei le'n cydweddu â'r ardal gadwraeth o'i gwmpas.

Tudalen 15 – Eitem Rhif 5 Adolygiad o'r Cyfansoddiad – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Bobby Feeley cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddid yn gwneud gwaith i ymhelaethu ar ddisgrifiadau swydd Pencampwyr o fewn cyfansoddiad y Cyngor.

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Chwefror 28 2012 a Mawrth 27 2012 yn gofnod cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

8 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (P:GC&D) ei adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) ynglŷn â newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a oedd yn ofynnol yn ôl darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gynnwys sefydlu Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a threfniadau i benodi Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Esboniodd y P:GC&D fod yr adroddiad yn delio â nifer o ddarpariaethau gorfodol i aelodau eu hystyried ac roedd yna ddisgwyliad y byddid yn eu gweithredu yng nghyfarfod y Cyngor Blynnyddol. Fe ystyriwyd y canllawiau statudol drafft lle'r oedd yn gyson â'r Mesur. Ond, os oedd y canllawiau drafft yn sylwedol wahanol i'r drafft mae'n bosib y byddai angen adolygiad pellach. Fe ymhelaethodd y P:GC&D ar adrannau perthnasol y Mesur a'r oblygiadau i'r Cyngor o ymgymryd â'r gofynion gorfodol hynny yr oedd angen eu hadlewyrchu yng nghyfansoddiad y Cyngor.

Yn ystod cyflwyniad yr adroddiad fe fanteisiodd aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau ac egluro materion arbennig efo'r P:GC&D a'r cyfreithlondebau sy'n ymwneud â gweithredu'r darpariaethau statudol. Fe ystyriwyd pob un o'r materion canlynol yn eu tro -

Sefydlu Pwyllgor Archwilio

Fe ystyriodd y Cyngor enw, maint a chyfansoddiad y pwylgor a'i delerau gorchwyl. Nododd Aelodau fod swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol presennol yn debyg iawn i'r rheiny a oedd yn ofynnol gan y Mesur ar gyfer Pwyllgor Archwilio. O ystyried hynny ac effeithiolrwydd y pwylgor presennol, ac er mwyn effeithlonrwydd fe gytunwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol barhau (gan ymgymryd â'r swyddogaethau sy'n ofynnol gan y Mesur) a'i fod yn cael ei ddynodi'n Bwyllgor Archwilio i'r diben hwnnw. Yn unol â'r rheol gyffredinol mewn cyfraith llywodraeth leol fe gytunodd y Cyngor â'r argymhelliaid i'r pwylgor fod â chydbwysedd gwleidyddol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynyddu maint y pwylgor a ymddangosai'n fychan o'i gymharu â'r Cyngor llawn, efallai hyd at un ar ddeg o aelodau'n unol ag aelodaeth pwylgorau craffu. Fodd bynnag, y consensws oedd y byddai'r aelodaeth bresennol o chwech o gynghorwyr yn ddigonol i ymgymryd â'r dyletswyddau sy'n ofynnol yn y Mesur ynghyd â'r aelod lleyg annibynnol gorfodol. Cefnogai'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill ymarfer disgrifiwn i gynnwys Aelod Arweiniol perthnasol y Cabinet fel aelod wrth ystyried y swyddogaethau gofynnol sydd wedi eu nodi yn y Mesur. Fe ystyriodd y Cyngor rinweddau'r cynnig hwnnw ond yn gyffredinol, er mwyn bod yn gwbl annibynnol, ni ddylai'r pwylgor gynnwys unrhyw aelodau craffu nac aelodau cabinet o fewn ei aelodaeth. Mewn ymateb i gwestiynau fe nododd y P:GC&D y broses reciwtio ar gyfer yr aelod lleyg a chadarnhaodd y dylai'r aelod lleyg fod yn annibynnol ar y Cyngor heb unrhyw deyrngarwch gwleidyddol hysbys ac ni ddylai fod yn gyn Gynghorydd na Swyddog y Cyngor. Roedd Aelodau'n gefnogol o aelod lleyg annibynnol ar y pwylgor ac o ystyried y penderfyniad i ddynodi'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn Bwyllgor Archwilio i ddibenion y Mesur cafwyd peth trafodaeth ynglŷn ag a ddylai aelod lleyg gael hawliau pleidleisio ar swyddogaethau eraill y bydd y pwylgor yn ymgymryd â nhw ac a oedd y tu allan i'r rheiny sy'n ofynnol gan y Mesur. Roedd y Cynghorydd Alice Jones yn dadlau'n arbennig o blaid hawliau pleidleisio llawn gan y teimlai y byddai'n ymrannol pe na fyddai gan yr aelod lleyg statws cyfartal ag aelodau eraill y pwylgor. Fod bynnag, barn y mwyafrif oedd y dylid cyfyngu ar hawliau pleidleisio'r aelod lleyg i'r swyddogaethau hynny a nodwyd yn y Mesur a bod materion eraill i'w neilltuo ar gyfer y cymghorwyr hynny a etholwyd i'r safle hwnnw. Fe egluodd y P:GC&D y safle cyfreithiol o ran hawliau pleidleisio gan ddweud y gall holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn cynnwys yr aelod lleyg, bleidleisio ar unrhyw gwestiwn a fydd i'w benderfynu gan y pwylgor. Byddai unrhyw ymataliad rhag pleidleisio ar faterion sydd y tu allan i gylch gwaith y swyddogaethau a osodwyd allan yn y Mesur, yn gorfod cael cytundeb yr aelod lleyg. Mewn termau ymarferol gellid rheoli busnes y pwylgor i wahanu swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio fel y'u diffinnir yn y Mesur oddi wrth swyddogaethau llywodraethu corfforaethol eraill. Fe addefodd y gellid amddiffyn cyfyngu cyfranogiad yr aelod lleyg i swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio'n unig.

Sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd

Fe ystyriodd y Cyngor sefydlu'r pwylgor, ei faint, ei gyfansoddiad a'i delerau gorchwyl. Nododd Aelodau fod y Mesur wedi mynegi'n glir ofynion a swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd a bod yn rhaid cael cydbwysedd gwleidyddol. Dywedodd y P:GC&D ei bod yn annhebygol y byddai'n rhaid i'r pwylgor gyfarfod fwy nag unwaith y flwyddyn. Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Joan Butterfield, a eiliwyd gan y Cynghorydd Barbara Smith fe

gytunodd aelodau'n unfrydol i sefydlu'r pwylgor gydag un ar ddeg o aelodau, yn wleidyddol gytbwys yn unol â'r pwylgorau craffu.

Penodi Cadeiryddion y Pwylgorau Craffu

Fe ystyriodd y cyngor ddyraniad Cadeiryddion y Pwylgorau Craffu fel y'i darparwyd gan y Mesur mewn amgylchiadau lle'r oedd yna ddau neu fwy o grwpiau gwleidyddol a phwylgorau craffu lluosog fel yn Sir Ddinbych. Wrth esbonio'r broses o benodi, ychwanegodd y P:GC&D y gallai'r Cyngor fabwysiadu system ddyrannu wahanol ac amlinelloedd y gweithdrefnau y byddai'n rhaid eu dilyn. Nid oedd yna unrhyw gyfeiriad at benodi Is-gadeiryddion yn y Mesur ac fe awgrymwyd bod penodi Is-gadeiryddion i fod yn fater i'r pwylgorau hynny. Fe eglurodd y P:GC&D y diffiniad o 'grŵp gwrthwynebol' fel grŵp sydd heb gynrychioliad yn y Cabinet.

PENDERFYNWYD –

- (a) *bod y Pwylgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei ddynodi'n Bwylgor Archwilio i ddibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a bod y Telerau Gorchwyl i'r pwylgor hwnnw fel y'i mynegir yn Atodiad 2 i'r adroddiad yn cael ei fabwysiadu'n amodol ar (1) gyfeiriad i adlewyrchu, lle bo hynny'n bosib, fod busnes y pwylgor i'w reoli i wahanu swyddogaethau'r Pwylgor Archwilio fel y'u nodir yn y Mesur oddi wrth swyddogaethau llywodraethu corfforaethol eraill, a (2) drwy gytundeb, bod cyfranogiad yr aelod lleyg annibynnol i'w gyfyngu i swyddogaethau'r Pwylgor Archwilio;*
- (b) *bod aelodau'r Pwylgor Archwilio i'w penodi gan y Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol;*
- (c) *sefydlu Pwylgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys un ar ddeg o aelodau, yn wleidyddol gytbwys a mabwysiadu Telerau Gorchwyl y pwylgor hwnnw fel y'u nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad;*
- (d) *mabwysiadu'r egwyddorion i'w cymhwys i benodiad Cadeiryddion y Pwylgorau Craffu fel y'u nodir ym mharagraffau 4.26 i 4.30 yr adroddiad*
- (e) *awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r diwygiadau sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y'u nodir yn (a) i (d) uchod.*

9 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR GYFER AELODAU

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (P:GC&D) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i geisio cymeradwyaeth aelodau i lefel cydnabyddiaeth ariannol aelodau am y flwyddyn ariannol 2012/13 yn dilyn argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran y symiau sydd i'w talu fel Cyflog Sylfaenol, Cyflogau Uwch-swyddogion a Chyflogau Dinesig.

Hysbyswyd Aelodau fod yn rhaid i'r Cyngor weithredu gofynion y Panel dan S153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Yn unol â hynny mae'n rhaid i'r Cyngor

dalu Cyflog Sylfaenol i bob aelod a gall dalu Cyflogau Uwch-swyddogion a Chyflogau Dinesig i'r swyddi a nodwyd a'r symiau a bennwyd gan y Panel. Roedd uchafrif o ddau ar hugain o Gyflogau Uwch-swyddogion wedi eu pennu ar gyfer Sir Ddinbych. Roedd manylion y Cyflogau Sylfaenol, Uwch a Dinesig wedi eu nodi yn yr adroddiad ynghyd â phedair ar ddeg o swyddi a fyddai'n gymwys ar gyfer Cyflog Uwch. Byddai cymhwysedd unrhyw swyddi eraill ar gyfer Cyflog Uwch yn dibynnu ar benodiad aelodau'r pedair swydd ar ddeg a oedd wedi eu nodi. Wrth dywys aelodau drwy'r adroddiad fe amlygodd y P:GC&D y canlynol -

- y ffioedd y mae'n rhaid i'r Cyngor eu talu i aelodau cyfetholedig
- y taliadau uchaf sy'n daladwy am ofal plant neu ddibynyddion tra bod aelodau/aelodau cyfetholedig yn ymgymryd â'u dyletswyddau
- treuliau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy
- yr angen i gynnal a chyhoeddi rhestr flynyddol o gydnabyddiaeth i aelodau ac i gyhoeddi'r cyfanswm a delir i bob aelod/aelod cyfetholedig.

Yn ystod yr ystyriaeth o'r adroddiad fe geisiodd aelodau eglurhad ar nifer o faterion ac ymateb y P:GC&D i gwestiynau aelodau oedd -

- yn ôl S153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 roedd gweithredu gofynion y Panel yn orfodol
- os na fyddai'r Cyngor yn gweithredu gofynion y Panel roedd gan y Gweinidogion Cymreig rym i gyfarwyddo'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion a gallent orfodi cyfarwyddyd felly drwy wneud cais am orchymyn gorfodi
- mae'n rhaid i bob cynghorydd dderbyn Cyflog Sylfaenol ac mae'r Cyngor â disgrifiwn i ddyfarnu hyd at ddau ar bymtheg o Gyflogau Uwch-swyddogion a dau Gyflog Dinesig sy'n rhaid eu dyrannu'n unol ag argymhellion y Panel fel y'u nodir yn yr adroddiad
- gellid talu costau gweithredu argymhellion y Panel o gyllidebau presennol
- cadarnhau fod y Cyngor yn flaenorol wedi talu Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig i ddeunaw o swyddi ond yng ngoleuni argymhellion y Panel dim ond i ddwy ar bymtheg o swyddi y gellir talu Cyflogau Uwch-swyddogion.

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn croesawu'r ffaith fod y Panel yn gosod cyfraddau penodedig gan y teimlai fod y Cyngorwyr wedi bod mewn sefyllfa anodd yn pennu eu lwfansau eu hunain. Nododd y Cyngor y gofyniad statudol i fabwysiadu argymhellion y Panel ac fe ystyriodd ymhellach ddyraniad y swyddi a fyddai'n denu Swyddogion Cyflogau Uwch yn Sir Ddinbych. Mynegwyd safbwytiau cymysg ynglŷn ag a ddylid talu'r ddau ar bymtheg o Gyflogau Uwch-swyddogion yn llawn gyda rhai aelodau o blaid talu dim ond y pedair ar ddeg o swyddi a ddynodwyd ac eraill yn amlygu'r gwaith ychwanegol a wneir gan rai aelodau ac a allai gyfiawnhau mwy o gydnabyddiaeth. Yn ystod dadl cytunodd aelodau y dylid talu Cyflogau Uwch-Swyddogion i'r pedair swydd ar ddeg a oedd wedi eu dynodi yn yr adroddiad ynghyd â dau Gyflog Dinesig ond teimlwyd nad oedd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth ar hyn o bryd i wneud penderfyniad cwbl wybodus ynglŷn ag a ddylid dyrannu'r tri Chyflog Uwch-swyddogion a oedd ar ôl. Fe amlygwyd hefyd yr angen i roi cyfreith i aelodau ymgynghori o fewn eu grwpiau ac i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol swyddi efo'r cyngorwyr a oedd newydd eu hethol, ynghyd â'r angen i ystyried yr adroddiad a oedd ar ddod ar Gydbwysedd Gwleidyddol ac Aelodaeth Pwyllgorau cyn gwneud penderfyniad. Awgrymodd y Prif

Weithredwr bod rhai opsiynau ar sut i ddelio â'r dyraniadau a oedd ar ôl, i'w gosod allan i aelodau eu hystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD –

- (a) *mabwysiadu argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran y symiau sydd i'w talu fel Cyflog Sylfaenol, Cyflogau Uwch-swyddogion a Chyflogau Dinesig;*
- (b) *cytuno ar bedwar ar ddeg o Gyflogau Uwch-swyddogion ar gyfer y swyddi a nodir yn 4.23 yr adroddiad yn ogystal â dau Gyflog Uwch-swyddogion ar gyfer swyddi'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Pennaeth Dinesig gydag ystyriaeth o'r tri Chyflog Uwch-swyddogion sydd ar ôl ac ar gael i'r Cyngor, i'w gohirio tan gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol;*
- (c) *mabwysiadu'r cyfraddau ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig fel y'u cymeradwyir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;*
- (d) *mabwysiadu argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran talu treuliau teithio, cynhaliaeth, ac ad-daliad treuliau sy'n gysylltiedig â gofal plant.*

10 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR AT Y DYFODOL

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Flaenraglen Waith y cyngor gan ddweud fod eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod y Cyngor yr wythnos nesaf yn cynnwys adolygiad o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ac adroddiad blynnyddol y pwylgorau craffu. Gofynnodd y Cynghorydd David Smith am i'r adroddiad ar gydbwysedd gwleidyddol fod ar gael i Arweinwyr Grwpiau cyn y cyfarfod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill dywedodd y P:GC&D y byddai nifer y Cadeiryddion Craffu a oedd ar gael i grwpiau arbennig yn hysbys unwaith y byddai dyraniad seddi pwylgor a oedd yn wleidyddol gytbwys wedi ei gadarnhau. Yna gellid penodi'r Cadeiryddion gan y grwpiau arbennig hynny.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rhys Hughes at yr eitem ar gyfer y Cyngor ar Offennaf 10 a oedd yn delio â'r canllawiau cynllunio atodol ar y cyd ar Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Gan fod aelod newydd wedi ei ethol ar gyfer ward Llangollen, gofynnodd y Cynghorydd Hughes am ohirio'r eitem er mwyn rhoi cyfle i aelodau newydd gael eu briffio'n llawn ar y mater cyn ystyriaeth ffurfiol. Cytunai'r Cynghorydd Stuart Davies gan ddweud ei fod wedi gofyn am i'r ystyriaeth o'r mater gael ei gohirio oddi ar agenda'r Pwyllgor cynllunio nes y byddai aelodau'n gwbl ymwybodol o'r sefyllfa.

Yn olaf, cyflwynodd y Cynghorydd Alice Jones ei hymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod y Cyngor yr wythnos nesaf oherwydd y byddai'n mynychu gwrandawiadau'r Cynllun Datblygu Lleol a mynegodd ei siomedigaeth ynglŷn â'r gwrthdarо cyfarfodydd a

theimlai y gellid bod wedi osgoi hynny gyda chynllunio gwell. Wrth gydymdeimlo â'i sefyllfa cytunai'r Cadeirydd fod y gwrthdaro cyfarfodydd yn anffodus.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, derbyn a nodi Blaenraglen Waith y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.05 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambrau y Cyngor, Neuadd y sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 22 Mai 2012 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Merfyn Parry, Allan Pennington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gweddnewid Busnes Ac Adfywio (BJ), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Pennaeth Gwasanethau Cyfreithiol a Democraidd (RGW), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP), Swyddog Cynnal Archwilio (RE) and Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

GWEDDI

Cyflwynodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd J.R. Bartley y weddi ar ddechrau'r cyfarfod.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Alice Jones, Dewi Owens a/ac Cefyn Williams

2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhai a oedd yn rhagfarnu.

3 MATERION BRYNS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

NI chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AC AELODAETH PWYLLGOR

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd, yn hwyluso adolygiad statudol cydbwysedd gwleidyddol ac yn ystyried gofynion aelodaeth Pwyllgor, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth i gynorthwyo'r Cyngor a'r grwpiau gwleidyddol i ddyrannu seddau ar amrywiol bwyllgorau, yn unol â darpariaethau statudol cydbwysedd gwleidyddol Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a'r Rheoliadau. Yr ymrwymiad statudol yw gweithredu, cyn belled ag y bo'n ymarferol yn rhesymol, y bedair egwyddor yn y Ddeddf gyda'r nod o osgoi bwyllgorau un blaidd tra'n caniatáu i blaidd sydd â mwyafri gael mwyafri y seddau ar y bwyllgor.

Roedd manylion Pwyllgorau a Phaneli'r Cyngor, a chyfanswm nifer y seddau a "oedd ar gael" ac angen eu dosbarthu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, wedi eu cynnwys yn Atodiad 2. Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn am sefydlu dau bwyllgor newydd: Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Roedd y Mesur hefyd yn pennu sut dylid dyrannu swyddi Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu, yn adlewyrchu sefyllfa o blaidd cael cadeiryddion craffu a oedd, cyn belled ag y bo modd, yn annibynnol o arweinyddiaeth y Cyngor ac yn gysylltiedig â chydbwysedd gwleidyddol.

Roedd crynodeb o'r materion i'r Grwpiau eu hystyried wrth benodi eu Haelodau i Bwyllgorau wedi ei amlinellu yn yr adroddiad ac yn cynnwys:-

- Ni allai Aelodau'r Cabinet fod yn Aelodau Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd fydd 11 Cynghorydd, ac ni ddylai gynnwys Aelod Cabinet, a chyda'r Pwyllgor yn wleidyddol gytbwys.
- Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fydd y Pwyllgor Archwilio newydd, yn cynnwys 6 Chynghorydd etholedig, a heb gynnwys Aelod Cabinet, ac aelod lleyg, pob un i'w penodi gan y Cyngor llawn. Aelodaeth i gynnwys Is-gadeirydd y Cyngor ac ni ddylai Aelodau Llywodraethu Corfforaethol fod yn Aelodau Pwyllgor Craffu.
- Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol i gynnwys 1 Aelod Cabinet, yr Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb am faterion Adnoddau Dynol fyddai orau.
- Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol i gynnwys 8 Cynghorydd, wedi eu penodi gan y grwpiau gwleidyddol, ac 8 cynrychiolydd undebau llafur.
- Aelod i'w benodi i'r Panel Maethu a'r Cyd-Banel Mabwysiadu.
- Aelodau'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAAG) i gynnwys 8 Cynghorydd a chynrychiolwyr o enwadau crefyddol, cymdeithasau athrawon ac aelodau cyfetholedig.
- Aelodaeth y Pwyllgor Safonau i gynnwys 2 Gynghorydd Sir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd J Butterfield at y gwaith rhagorol a wnaed gan y Cynghorydd J Chamberlain-Jones fel aelod o'r Panel Maethu a'r Cyd-banel Mabwysiadu a chefnogodd ei phenodiad i'r swydd. Heriodd ddyraniad seddau ar y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gofynnodd bod y ffigurau'n cael eu hadolygu a bod y Grŵp Llafur yn cael 3 sedd a'r Grŵp Annibynnol yn cael 1 sedd ar sail y ffaith mai'r Grŵp Llafur oedd y Grŵp mwyaf ar y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D.I. Smith ar ddyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod y mater wedi ei drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a

oedd wedi cadarnhau bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi pennu sut i benderfynu ar nifer y Cadeiryddion Pwyllgor Craffu y gallai'r Grwpiau eu dyrannu, ond nad oedd yn pennu proses ar gyfer dyrannu Pwyllgorau i Grwpiau. Byddai hyn yn fater i'r Grwpiau gwleidyddol ei benderfynu ac nid oedd yn fater i'w benderfynu gan y Cyngor.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd, cyn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad, y byddai angen i'r Aelodau ystyried y cynnig a wnaed gan y Cynghorydd Butterfield, bod y ffigurau a oedd yn ymwneud â dosbarthu seddau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael eu hadolygu; o roddi'r mater i bleidlais, trechwyd y cynnig.

Roedd enwebiadau ar gyfer penodi 2 Aelod i'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys y Cynghorwyr R.J. Davies, W.L. Cowie, M.L. Holland a C. Hughes. Gwahoddwyd pob aelod i wneud cyflwyniad byr ac ar y pwynt hwn, tynnodd y Cynghorydd R.J. Davies ei enwebiad yn ôl. Cynhaliwyd pleidlais ddirgel ac fe benodwyd y Cynghorwyr W.L. Cowie a C. Hughes i'r Pwyllgo Safonau.

Ystyriodd y Cyngor yr argymhellion yn yr adroddiad ac ar ôl trafodaeth lawn, gan gynnwys ystyried enwebiadau gan Arweinwyr Grwpiau, fe:-

BENDERFYNWYD – bod y Cyngor yn cytuno:

- (a) *Defnyddio'r tabl dyrannu i gael dyraniad gwleidyddol gytbwys seddau Pwyllgor fel y cynhwyswyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*
- (b) *Dosbarthiad y seddau fel y nodwyd yn Atodiad 2 a bod y grwpiau gwleidyddol yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd o'r Aelodau a enwyd i'w seddau penodol cyn gynted ag y bo modd, ac eithrio penodiadau i'r Cabinet.*
- (c) *Y penodiadau canlynol:-*

- (i) *Aelodau nad ydynt yn aelodau'r Cabinet, y Cynghorwyr W.L. Cowie, S.A. Davies, M.L. Holland, G.M. Kensler, W.M. Mullen-James, R.M. Murray, P.W. Owen, T.M. Parry, A. Roberts a G. Sandilands i'w penodi i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd gyda'r Cynghorydd B. Mellor yn Gadeirydd.*
- (ii) *Aelodau nad ydynt yn aelodau'r Cabinet, y Cynghorwyr J.R. Bartley, S.A. Davies, M.L. Holland, G.M. Kensler, J.M. McLellan a D. Simmons i'w penodi i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.*
- (iii) *Penodi'r Cynghorydd J. Chamberlain-Jones i'r Panel Maethu a Chyd-banel Mabwysiadu, a'r*
- (iv) *Cynghorwyr W.L. Cowie a C. Hughes yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Safonau.*

Dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl cyfweld ymgeiswyr am swydd aelod lleyg ar y Pwyllgor a gwneud argymhellion ar y penodiad i'r Cyngor llawn.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU

Roedd copi o'r cyd-adroddiad gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu a'r Cydgysylltydd Craffu, a oedd wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yn unol â Chyfansoddion Sir Ddinbych, sef adroddiad blynnyddol ar eu gweithgareddau yn ystod 2011/12, wedi ei gyflwyno gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Esboniodd y Cydgysylltydd Craffu y byddai'r Adroddiad Blynnyddol yn cynorthwyo gyda chyflwyno gwaith y Pwyllgorau Craffu a'r rôl i'r holl Aelodau etholedig. Roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau'r ymarfer hunanwerthuso a ymgymmerwyd i fesur effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu. Y llynedd, roedd yr hunanwerthusiad wedi nodi rhai meysydd lle'r oedd angen gwaith pellach er mwyn eu cryfhau. Roedd y meysydd hyn wedi eu gwerthuso eto mewn perthynas â darganfyddiadau ymarfer eleni ac roedd y casgliad wedi ei gynnwys ar dudalennau 6 a 7 yr Adroddiad Blynnyddol.

Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi mynogi pryderon ynglŷn â phroblem cael cworm yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu. Tra nad oedd tystiolaeth bod hyn wedi amharu ar effeithiolrwydd craffu, teimlwyd bod posiblirwydd y byddai gwaith craffu a'r broses ddemocrataidd yn cael eu tanseilio yn y pen draw. O ganlyniad, roedd y Grŵp wedi argymhell bod cofnod presenoldeb pob Aelod unigol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor, ar ddiwedd blwyddyn ddinesig 2012/13, yn cael ei gofnodi yn yr Adroddiad Blynnyddol. Byddai cofnodion cyfarfod yn nodi ymddiheuriadau a gyflwynwyd, os byddant wedi eu cyflwyno cyn cynnal y cyfarfod.

Roedd strwythur newydd y Pwyllgorau Craffu wedi ei gyflwyno yn 2011/12 gyda phedwar Pwyllgor Craffu gweithredol yn cael eu disodli gan dri Phwyllgor thematig. Roedd manylion adolygiad o'r strwythur newydd wedi ei werthuso a'i gynnwys yn yr Adroddiad. Y casgliad cyffredinol, yn amodol ar ychydig o fân addasiadau, oedd bod y strwythur newydd yn addas i'w bwrrpas.

Roedd manylion y pwerau a'r dyletswyddau newydd i'w rhoi i Bwyllgorau Craffu Awdurdod Lleol, ar ôl gweithredu darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad. Byddai gwybodaeth bellach ar y darpariaethau, a'r opsiynau a gynigir ganddynt, yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau ar ôl cyhoeddi'r canllaw statudol terfynol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H LI Jones at benodi Aelodau newydd i'r Cyngor a phwysigrwydd nodi'r newidiadau a'r gwaith a wnaed gan y swyddogaeth graffu yn ystod flwyddyn ddiwethaf. Amlygwyd yr angen i sicrhau bod cworm yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a chadarnhawyd y bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol 2012/13. Roedd pamffled ar waith craffu wedi ei gyhoeddi i ysgogi diddordeb trigolion yn y gwaith craffu a byddai hyn yn cael ei wneud eto i grynhau gwaith craffu 2012/13. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at baragraff 4.8 yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r pwerau a'r dyletswyddau newydd a ddaeth i ran Pwyllgorau Craffu dan ddarpariaeth Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ac Atodiad 7, y Siart Cyfeirio a Rhyngwneb Craffu, a oedd yn amlinellu'r rôl a statws craffu o fewn y Cyngor.

Esboniodd y Cynghorydd D I Smith bod bod yn Aelod o'r Pwyllgor Craffu yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar agweddau gweithredol y Cyngor Cyfeiriodd at nifer o faterion

a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac esboniodd ei fod yn falch o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor a'r canlyniadau a ddeilliodd.

Cyfeiriodd y Cyngorydd R L Feeley at effeithiolrwydd gwaith craffu a oedd wedi ei gymeradwyo gan Adroddiad Archwilio Estyn, fel y nodwyd ar dudalen 39 yr Adroddiad Blynnyddol. Esboniodd bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi cysylltu Aelodau'n llwyddiannus â heriau effeithlonrwydd gwasanaeth a oedd wedi cynorthwyo o ran dosbarthu baich gwaith a chyfrifoldebau.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r aelodau a'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a'r hunanwerthusiad mewn perthynas â'r broses graffu a phwysleisiodd y materion canlynol a oedd angen gwaith a thrafodaeth bellach yn ystod y flwyddyn i ddod yn ei farn ef:-

- Pwysigrwydd presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a'r angen i sicrhau pennu amcan bod cworwm i bob cyfarfod bob amser.
- Ystyried barn Aelodau ar amser a lleoliad cyfarfodydd, gyda chyfeiriad penodol at y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd gyda'r nos.
- Cyfathrebu rhwng y Cabinet a Chraffu a dosbarthu gwybodaeth yn hanfodol i agweddau gweithredol y Cyngor, Y Cabinet yn cael eitem benodol ar y rhaglen ar gyfer materion a gyfeirir gan Bwyllgorau Craffu, effeithiolrwydd y broses galw i mewn a chynnwys Arweinwyr Grwpiau ar y Cabinet i wella atebolrwydd a chyfathrebu.
- Pwysigrwydd mater craffu personau dynodedig a rhoi'r cyfle i alw i gyfrif a chraffu'r sectorau cyhoeddus a phreifat.
- Rôl y Byrddau Rhaglen o ran darparu Aelodau craffu gyda'r cyfle i gymryd rhan yng ngweithrediadau mewnol yr Awdurdod.
- Rôl Hyrwyddwyr a'r angen am ganllawiau pellach a chymorth wrth sicrhau eu bod yn effeithiol. Awgrymodd y Cyngorydd J. Butterfield bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol gan Hyrwyddwyr yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn eu rolau unigol.

Mewn ymateb i gyfeiriad y Cyngorydd C Hughes at y pŵer i gyfethol aelodau nad oeddynt yn aelodau'r Cyngor fel aelodau Pwyllgorau Craffu Awdurdod Lleol esboniodd y Cynghorwyr R.L. Feeley a G.M. Kensler y buasent yn croesawu penodi personau gyda gwybodaeth arbenigol mewn meysydd penodol. Serch hynny, teimlent y dylai'r Awdurdod fod yn ofalus o ran penodi aelodau cyfetholedig fel aelodau llawn y Pwyllgor a chyfeiriodd y Cyngorydd Feeley at y broses ddemocratiaidd o benodi Aelodau'r Cyngor. Cyfeiriodd y Cyngorydd H. Hilditch Roberts at bwysigrwydd adrodd am y gwaith a wnaed gan y Cyngor a'r angen am well cyfathrebu gyda'r cyhoedd.

Cyfeiriodd nifer o'r Aelodau at y gwaith canmoladwy a wnaed gan Hyrwyddwyr a rhoddodd nifer o'r Hyrwyddwyr fanylion y gwaith a wnânt yn eu rolau penodol. Esboniodd y Cadeirydd y dylai'r gwaith a wnaed gan Hyrwyddwyr gael mwy o gyhoeddusrwydd o fewn y Siambr ac yn allanol.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan yr Aelodau mewn perthynas â phresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiaidd y byddai manylion cofnodion presenoldeb Aelodau yn

cael eu cyhoeddi ar y wefan ac yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Fodd bynnag, roedd y gyfraith yn pennu'r nifer lleiaf o gyfarfodydd yr oedd angen eu mynchy.

Cefnogodd yr Aelodau y farn a fynegwyd gan y Cyngor ydylid cyflwyno Adroddiad Blynnyddol y Pwyllgorau Craffu i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yr oedd yr adroddiad yn ymwneud â hi.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, eiliwyd cynnig gan y Cyngor M LI Davies i dderbyn yr Adroddiad Blynnyddol gan y Cyngor S A Davies, ac o rodri'r mater i bleidlais, derbyniwyd y cynnig.

PENDERFYNWYD – bod y Cyngor yn derbyn Adroddiad Blynnyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2012/13 ac yn cydnabod sylwadau'r Aelodau.

6 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd, a oedd yn manylu'r opsiynau i ddyrannu Uwch Gyflogau yn unol ag argymhelliaid Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012/13, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Yn ei gyfarfod ar 15fed Mai, 2012, ystyriodd y Cyngor adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau a oedd yn nodi'r darpriaethau yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Dyrannodd y Cyngor 14 Uwch Gyflog a mynegi dymuniad i ystyried opsiynau mewn perthynas â sut dylid dyrannu'r 3 Uwch Gyflog posibl arall.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd grynodeb o'r adroddiad a oedd yn rhoi manylion:

- Talu Uwch Gyflogau.
- Talu Cyflogau Dinesig i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor.
- Nifer yr Uwch Gyflogau y caiff y Cyngor eu dyrannu wedi eu cyfyngu i 17.
- Swyddi a bennwyd gan y Panel i'r rhain y gellid dyrannu Uwch Gyflog.

Esboniwyd y caiff y Cyngor, ond nad oedd yn rhai iddo, ddyrannu 3 Uwch Gyflog arall. Roedd y Cyngor wedi penderfynu na fyddai Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn denu Uwch Gyflog gan fod y Pwyllgor ond yn debygol o gyfarfod unwaith y flwyddyn. Y swyddi eraill a oedd ar gael ar gyfer Uwch Gyflog oedd Band 3 – Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf a Band 4 – Arweinwyr Grwpiau gwleidyddol eraill. Atgoffwyd yr Aelodau bod 4 Grŵp Gwleidyddol ar y Cyngor, a dim ond 3 Uwch Gyflog a gaiff eu dyrannu.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd grynodeb o'r 4 opsiwn posibl i'w hystyried gan y Cyngor, a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd â'r costau perthnasol a'r effaith bosibl ar wasanaethau eraill.

Mynegodd y Cynghorydd S.A Davies yr angen i gadw'r lwfansau a chefnogodd yr egwyddor a ymgorfforwyd yn Opsiwn 3, ac awgrymodd y dylid ystyried opsiynau eraill, megis y posibilrwydd o gynnwys taliadau i Hyrwyddwyr, ar gyfer y 2 Uwch Gyflog a oedd ar ôl. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd fanylion y Mesur a oedd yn gofyn i'r Cyngor weithredu argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a oedd yn nodi'r uwch gyflogau y gellid eu talu, fel y nodwyd yn 4.5 yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorwyr C. Hughes a G.M. Kensler at benodi Arweinwyr Grwpiau i'r Cabinet, yr amserlen ar gyfer adolygu cydnabyddiaeth ariannol Aelodau mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol a monitro perfformiad Arweinwyr Grwpiau.

Amlygodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill ddu beth y teimlai y dylid eu hystyried, sef elfen cyflawnhad dyrannu cyflogau i Arweinwyr Grwpiau ac ystyried sefyllfa lle byddai Arweinydd Grŵp, sydd hefyd yn Aelod Cabinet, yn hepgor cyflog Aelod Cabinet os yw'n gadael y swydd. Esboniodd ei fod yn teimlo mai Opsiwn 1 fyddai'r Opsiwn gorau, a cyfyngu nifer Uwch Gyflogau i 14.

Cefnogodd y Cynghorydd T.R. Hughes Opsiwn 1 gyda'r awgrym y gellid defnyddio'r arian a arbedwyd i ddarparu bagiau hel baw cŵn, yn hytrach na darparu hyfforddiant ychwanegol i Aelodau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Councillor E.W. Williams at y costau a oedd yn gysylltiedig â delio â phroblem baw cŵn ac awgrymodd bod hyn yn cael ei ystyried ar wahân.

Esboniwyd gan y Cynghorydd H.H. Evans mai un o brif broblemau'r Cyngor blaenorol oedd cyfathrebu aneffeithiol rhwng y grŵp gweithredol a'r Aelodau. Teimlai y byddai penodi Arweinwyr Grwpiau ar y Cabinet yn rhoi arweiniad gwleidyddol cryfach a gwella atebolrwydd. Cyfeiriodd at Gyfansoddiad y Cyngor a oedd yn cyfeirio at gyfyngu taliadau i Arweinwyr Grwpiau gyda llai na 5 Aelod, ac awgrymodd y byddai Opsiwn 3 yn cynorthwyo gyda delio â'r broblem trwy ddarparu datblygiad Aelodau y gellid ei ddiffinio ar ôl trafodaethau rhwng yr Aelodau perthnasol a'u grwpiau. Mynegodd y Cynghorydd J. Butterfield hefyd ei chefnogaeth i Opsiwn 3 a phwysleisiodd bwysigrwydd datblygiad Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cynigiwyd Opsiwn 3 gan y Cynghorydd B. Blakeley a'i eilio gan y Cynghorydd C. Hughes ac o roddi hyn i bleidlais, derbyniwyd Opsiwn 3.

PENDERFYNWYD – bod y Cyngor yn cytuno ag Opsiwn 3, i ddyrannu Uwch Gyflog i Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid fwyaf, a chyfyngu nifer yr Uwch Gyflogau i 15. Gellid defnyddio'r arian a fyddai wedi bod yn daladwy mewn perthynas â dau Arweinydd Grŵp ar gyfer Datblygu Aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 6

Adroddiad ar gyfer: Y CYNGOR

Dyddiad y Cyfarfod: Gorffennaf 10^{fed} 2012

Aelod Arweiniol y Cabinet: Y Cynghorydd Eryl Williams

Swyddog Arweiniol: Angela Loftus (Rheolwr Polisi, Ymchwil a Gwybodaeth)

Teitl: Diweddariad ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych

1 Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

- 1.1 Mae'r adroddiad yma'n amlinellu cynnydd gyda'r Cynllun Datblygu Lleol a chanfyddiadau cychwynnol Archwilwyr o ran yr angen am dai a'u cyflenwad, a roddwyd ar Fehefin 14^{eg} 2012.

2 Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1 I ddarparu gwybodaeth ar gynnydd gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ac adborthi ar Ganfyddiadau'r Archwilwyr, ynghyd ag amlinelliad o'r camau nesaf ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, gan geisio cytundeb Aelodau i awdurdodi Arweinwyr Grŵp i arolygu a monitro gwaith a wnaethpwyd mewn ymateb i Ganfyddiadau'r Archwilwyr.

3 Beth yw'r Argymhellion?

1. Bod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad yma.
2. Bod Aelodau'n awdurdodi Arweinwyr Grwpiau i arolygu a monitro'r gwaith a wnaethpwyd mewn ymateb i Ganfyddiadau'r Archwilwyr.
3. Bod Aelodau'n cytuno y bydd canlyniadau'r ymgynhoriad ar unrhyw safleodd ychwanegol ar gyfer datblygiadau tai yn cael eu hadrodd yn ôl i Gyngor llawn ym mis Tachwedd er mwyn iddo ystyried a ddylai safleodd ychwanegol gael eu hanfon i'r Archwilwyr sy'n cynnal Archwiliad y CDLI.

4 Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae'r Cyngor â'r cyfrifoldeb o baratoi Cynllun Datblygu Lleol i arwain datblygiad yn y Sir ac i nodi tir digonol i'w ddatblygu i gyfarfod ag anghenion Sir Ddinbych dros gyfnod o 15 mlynedd. Fe ddechreuodd gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol yn 2006. Fe ymgynghorwyd yn eang drwy gydol ei ddatblygiad, gan sicrhau fod unrhyw un sydd â diddordeb yn y Cynllun wedi cael cyfreithiol o gyfnodau cyntaf ei gysyniad.
- 4.2 Yn dilyn cytundeb yn y Cyngor llawn ar Fai 20^{fed} 2011, fe gyflwynwyd y CDLI yn ffurfiol i'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus. Penodwyd dau Archwilydd i gynnwl yr Archwiliad, sy'n gyfredol ar hyn o bryd. Eu rôl ydi ystyried y CDLI, ynghyd â'r holl dystiolaeth sydd wedi hysbysu ei ddatblygiad,

yn cynnwys sylwadau a wnaethwyd o ganlyniad i ymgynghori cyhoeddus, ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ar a ydyn nhw'n ystyried bod y Cynllun Datblygu Lleol yn 'gadarn'. Mae adroddiad yr Archwilwyr yn orfodol ar y Cyngor ac mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu unrhyw newidiadau a gynigiwyd a mabwysiadu'r Cynllun os ceir ei fod yn gadarn.

- 4.3 Fe gynhaliwyd Sesiynau Gwrandawiad Cyhoeddus yn rhan o'r Archwiliad ym misoedd Ionawr a Chwefror eleni, ac yn dilyn ystyriaeth o'r materion, fe roddodd yr Archwilwyr nodyn yn amlinellu eu canfyddiadau cychwynnol ar faterion angen a chyflenwad tai (yn atodol fel Atodiad 1). Roedd hwn yn gosod allan bryderon yr Archwilwyr ynglŷn â'r angen am dai yn Sir Ddinbych ac a ddylid cynyddu targed tai'r Cynllun Datblygu Lleol i adlewyrchu rhagamcanion poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru; cyflenwad tai a chyflenwad tai fforddiadwy. Fe gynhaliodd yr Archwilwyr Gyfarfod Archwiliadol ar Chwefror 9^{fed} ac yn dilyn y cyfarfod fe gyhoeddwyd nodyn yn gosod allan y camau nesaf ac yn gofyn i'r Cyngor gyflwyno dystiolaeth ychwanegol i ddelio â'r materion a godwyd, ynghyd â rhestr o safleoedd tai ychwanegol potensial y gellid eu cynnwys yn y Cynllun os byddai'r Archwilwyr yn ystyried fod eu hangen. Roedd ar yr Archwilwyr angen y wybodaeth yma, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol ar hyfywedd a danfonadwyedd y Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan i ymgynghori arnyn nhw. Fe anfonwyd yr holl sylwadau a dderbyniwyd at yr Archwilwyr. Cynhaliwyd nifer o Sesiynau Gwrandawiad ychwanegol yn y Rhyl ar Fai 22 - 24 er mwyn gallu trafod y dystiolaeth hon a'r sylwadau a dderbyniwyd.
- 4.4 Yn dilyn ystyriaeth o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'r Archwilwyr wedi rhoi nodyn yn hysbysu'r Cyngor o'u canfyddiadau cychwynnol o ran yr angen am dai a'u cyflenwad. Mae'r nodyn hwn wedi ei gyhoeddi ar wefan Archwiliad y Cynllun Datblygu Lleol ac mae'n atodol fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.
- 4.5 Mae'r Archwilwyr wedi egluro eu bod yn awr yn derbyn targed tai'r Cyngor o 7500 o dai newydd i'w darparu erbyn 2012 i gyfarfod â'r anghenion tai ac **nid** ydyn nhw'n cynnig y dylid altro hyn, er y ffaith fod partïon eraill wedi dadlau'n daer am darged uwch yn yr Archwiliad. Mae'r ffigwr hwn wedi ei hyrwyddo'n gyson yn y Cynllun Datblygu Lleol dros y 4 blynedd ddiwethaf. Ond, mae'r Archwilwyr yn gofyn am i gyflenwad tai pellach gael ei nodi (h.y. safleoedd ychwanegol) er mwyn cyfarfod â tharged Sir Ddinbych o 7500 o gartrefi newydd erbyn 2021. Nid yw'r Archwilwyr wedi cyfeirio at Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan na dyraniadau eraill a gynigiwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ac nid ydyn nhw wedi gofyn am wybodaeth bellach nac wedi mynegi amheuaeth ynglŷn â'r rhain. Yr unig fater sydd ar ôl ac a godwyd yw cyflenwad tai.
- 4.6 Nid yw'r Archwilwyr yn ystyried y byddai'r cyflenwad tai a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cyflenwi 7500 o gartrefi erbyn 2021. Maen nhw'n ystyried y gellid cyflenwi tua 6450 o gartrefi a'u barn ydi bod angen dyrannu'r safleoedd ychwanegol hyn gyda chynhwysedd i gymryd oddeutu 1000 o gartrefi er mwyn cyfarfod â'r bwlc rhwng angen a chyflenwad.
- 4.7 Fel y cyfeiriwyd uchod, mewn ymateb i gais yr Archwilwyr yn y Cyfarfod Archwiliadol ym mis Chwefror, fe gyflwynodd y Cyngor restr o 16 o safleoedd a oedd â'r potensial o gymryd oddeutu 600 o gartrefi a heb unrhyw

gyfyngiadau amgylcheddol sylweddol. Roedd y safleoedd hyn wedyn yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus ac rodden nhw i'w trafod yn y Sesiynau Gwrandoiad ychwanegol ar ddiwedd Mai. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, felly, gellid cynnwys y safleoedd hyn yn y Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw'r safleoedd hyn wedi eu cynnwys yn y ffigwr cyflenwi o 6450 a roddwyd gan yr Archwilwyr. Yn ei hanfod, mae angen nodi cynhwysedd ar gyfer 400 o gartrefi newydd (yn ychwanegol at y 600) er mwyn cyfarfod â diffyg a nodwyd gan yr Archwilwyr o 1000 a bodloni'r Arolygwyr. Mae'n bosib y bydd yna sgôp i raddoli'r safleoedd hyn i gyfnod diweddarach yn y Cynllun, i'w dwyn ymlaen dim ond pan fyddai angen. Mae'n rhaid monitro'r Cynllun Datblygu Lleol yn flynyddol a'i adolygu os bydd monitro'n codi materion arwyddocaol ac mae'n rhaid iddo gael ei adolygu'n drwyndl ymhen 4 blynedd.

- 4.8 Mae oblygiadau nodyn yr Archwilwyr, ynghyd ag opsiynau potensial i'r Cyngor, wedi eu trafod gan Arweinwyr y Grŵp ac rodden nhw'n cytuno'n unfrydol y dylai'r Cyngor fwrw ymlaen â gwaith ychwanegol ar y Cynllun Datblygu Lleol (h.y. nodi safleoedd ychwanegol a allai gymryd oddeutu 400 o gartrefi, yn ogystal â'r ymgynghoriad gofynnol ar y safleoedd hyn). Bwriedir i'r holl Aelodau gael eu briffio drwy'r broses ac i holl ganfyddiadau a chanlyniadau'r ymgynghoriad (yn cynnwys yr ymgynghoriad a gynhalwyd eisoes ar y 16 o safleoedd potensial) gael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor ym mis Tachwedd er mwyn i Aelodau ystyried a ddylid rhoi safleoedd ychwanegol gerbron yr Archwilwyr ai peidio. Cynigiwyd hefyd y dylai grŵp o Aelodau arolygu'r gwaith ychwanegol yma ac mae'r adroddiad hwn yn ceisio awdurdodiad i Arweinwyr Grŵp ymgymryd â'r swyddogaeth honno.
- 4.9 Opsiwn arall fyddai gwneud dim ac aros am Adroddiad yr Archwilwyr. Ond, byddai methu â delio â chanfyddiadau'r Archwilwyr a bwrw ymlaen â'r Cynllun Datblygu Lleol yn y cam yma yn golygu y byddai'r Archwilwyr yn dyfarnu fod y Cynllun yn 'ansad'. Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddechrau'r broses eto o'r cychwyn a byddai hynny'n cymryd 3-4 blynedd arall ac yn golygu costau sylweddol. Y risg ydi y byddai datblygiad wedyn yn cael ei arwain gan y farchnad yn hytrach na'i gynllunio'n strategol ac yn amodol ar y broses ddemocrataidd. Y Cynllun Datblygu Lleol ydi'r cyfrwng allweddol i arwain datblygiad yn y dyfodol o fewn y Sir ac mae yna berygl o fod heb fframwaith polisi cynllunio cyfoes a heb sail gadarn i wrthod cynigion cynllunio, er enghraifft, os na all y Cyngor ddangos fod ganddo gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer datblygiad tai, mae yna risg gwirioneddol o golli apeliadau cynllunio ar gyfer safleoedd nad yw'r Cyngor yn eu cefnogi.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenorriaethau Corfforaethol?

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gyson â phob un o 4 o Flaenorriaethau Corfforaethol y Cyngor a bydd ag effaith positif arnyn nhw i gyd. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn arbennig â rôl uniongyrchol i gyflawni blaenorriaethau Adfywio ac Ymateb i Newid Demograffig drwy'r polisiau a'r cynigion o'i fewn gan ddatblygiad yn y fan a'r lle.

6 Beth fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

Fe fydd yna gostau'n ymwneud ag ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw safleoedd ychwanegol a nodir, yn cynnwys printio a phostio. Mae bwrw'r Cynllun Datblygu Lleol ymlaen yn debygol hefyd o olygu'r angen i drefnu Sesiwn Wrundaiad ychwanegol yn deillio o'r archwiliad cyhoeddus, yn cynnwys taliadau'r Arolygiaeth, ffioedd cyfreithiol a chyflogi swyddog rhaglen. Mae'r costau hyn wedi eu talu o gyllideb gwasanaeth sy'n bod yn barod.

Yn y pen draw, o'i fabwysiadu, fe fydd y Cynllun Datblygu Lleol ag oblygiadau wrth gwrs i sawl maes gwasanaeth a threfi a phentrefi ledled y Sir. Fodd bynnag mae poblogaeth y Sir yn debygol o dyfu hyd yn oed heb Gynllun Datblygu Lleol wedi ei sefydlu - mae'r Cynllun Datblygu Lleol, yn syml, yn darparu dull mwy effeithiol a chynlluniedig o gyflenwi'r twf yma ac mae'n caniatáu i'r Cyngor alw am gyfraniadau gan ddatblygwyr i sicrhau seilwaith cymdeithasol a ffisegol a gwasanaethau i gyd-fynd ag unrhyw dwf. Bydd hynny'n rhoi mantais gyffredinol yn hytrach na baich ar ein cymunedau ac ar wasanaethau'r Cyngor.

7 Pa ymgynghoriadau a gafwyd?

Fe ddatblygyd y Cynllun Datblygu Lleol drwy ymgynghori eang ac mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi eu pasio ymlaen i'r Archwiliwyr ac maen nhw'n eu hystyried. Mae'r Sesiynau Gwrundaiad cyhoeddus a gynhaliwyd hyd yma wedi galluogi'r rhai a wahoddwyd i gyflwyno eu tystiolaeth ar lafar i'r Archwiliwyr.

8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dylid cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â bwrw'r Cynllun Datblygu Ymlaen o fewn adnoddau presennol. Mae gan y Cyngor gronfa benodedig wrth gefn o fewn y cyfrifon i gyfrannu tuag at gostau cynhyrchu'r Cynllun.

9 Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai methu â darparu'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol gan Archwiliwyr i symud y Cynllun Datblygu Lleol ymlaen yn y cam yma'n golygu y byddai'r Archwiliwyr yn dyfarnu fod y Cynllun Datblygu Lleol cyfan yn 'ansad' er y ffaith mai dim ond cyflenwad tai sydd wedi ei godi fel problem. Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddychwelyd i ddechrau'r broses gan roi mabwysiad y Cynllun yn ôl o 3-4 blynedd o leiaf. Byddai angen ymgynghori ac ymchwil ychwanegol oherwydd hynny, ac Archwiliad cyhoeddus pellach a fyddai'n golygu amser staff a chostau sylweddol i'r Cyngor.

Y Cynllun Datblygu Lleol ydi'r cyfrwng allweddol i lywio datblygiad yn y dyfodol o fewn y Sir ac mae yna risg o fod heb fframwaith polisi cynllunio diweddar a heb sail gadarn i wrthod cynigion cynllunio, a cholli apeliadau cynllunio ar gyfer datblygiad sydd ddim yn cael cefnogaeth y Cyngor.

Yn ôl polisi cenedlaethol mae'n ofynnol bod awdurdodau â thir digonal ar gael i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Heb fwrrw'r Cynllun Datblygu Lleol ymlaen mae yna risg sylweddol na fydd y Cyngor yn gallu

cyflenwi digon o dir i gyfarfod ag anghenion y Sir am gartrefi newydd, yn enwedig cartrefi fforddiadwy.

Mae'n ofyniad statudol i Gynghorau yng Nghymru gynhyrchu cynllun datblygu lleol a byddai'r Cyngor yn methu â bodloni'r gofyniad yma os na fydd y Cynllun yn cael ei fwrw ymlaen.

10 Grym i wneud y Penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Denbighshire Local Development Plan EXAMINATION

www.denbighshire.gov.uk/lpexam

Housing: Need and Supply, Inspectors' preliminary findings

Introduction

1. This report sets out the Inspectors' preliminary findings on matters of housing need and supply. Policy BSC 1 of the Local Development Plan (LDP) makes provision for 7,500 homes to 2021. For the reasons given below the Inspectors do not consider that the LDP makes sufficient provision for housing. In reaching this conclusion the Inspectors have taken into account duly made representations and the evidence submitted to the hearings on 10, 11 and 17 January 2012.

Policy

2. Planning Policy Wales (PPW) states that the latest Welsh Government local authority level Household Projections for Wales should form the starting point for assessing housing requirements. PPW goes on to say that; '*Local planning authorities should consider the appropriateness of the projections for their area, based on all sources of local evidence, including the need for affordable housing identified by their Local Housing Market Assessment*'. And; '*Where local planning authorities seek to deviate from the Assembly Government projections, they must justify their own preferred policy based projections by explaining the rationale behind them*'¹.
3. Paragraph 9.2.1 of PPW sets out the matters which local authorities should take into account and which may justify deviating from the Welsh Government projections. These matters include, amongst other things, the environmental capacity of an area. PPW and Technical Advice Note 1; Joint Housing Land Availability Studies, also state that local planning authorities must ensure that sufficient land is genuinely available to provide a 5 year supply of land for housing.

Need

4. Denbighshire County Council accepts that the 2008 projections are a reasonable starting point for determining need. It is argued by some that regard should be given to the 2006 household projections but national policy is clear and the starting point in this examination is the 2008 projections (although, given that the LDP has a base date of 2006, those projections have some bearing on the provision of dwellings pre 2008).

¹ PPW, paragraph 9.2.2

5. The 2008 projections indicate the need for 8,400 new units between 2008 and 2023²; a requirement of 560 units per annum compared to the 500 per annum proposed in the LDP. 560 units per annum over the 13 years between 2008 and 2021 equates to 7,280 units. Using this rate for the 15 years of the plan period, leads to a requirement of 8,400. If one uses the rate per annum derived from the 2006³ projections of 653⁴ for 2006 and 2007 this would result in a requirement of 8,586 over the plan period ($2 \times 653 + 13 \times 560$).
6. Consequently, based on the Welsh Government's projections, the LDP should make provision for at least 8,400 units. Denbighshire County Council is not bound to these projections but, as stated above, it must justify deviating from them.
7. The Council commissioned its own report on population and household projections⁵ but that was in 2005 and has been superseded by the later Welsh Government projections. In IP002⁶ the Council argue that the lower build rate proposed in the LDP takes account of the environmental capacity of the county and the ability of the construction industry to build at a higher rate. However, the Council have not produced any evidence to counter the assertion made by the HBF and others in the sector that the construction industry could build at higher rates. Indeed, the revised phasing table produced by the Council assumes an annual build rate of 727 units per annum between 2016 and 2021⁷, undermining its own contention that the construction industry could not build at a rate higher than 500 units per annum.
8. Turning to environmental capacity, the Council started with 6 strategic sites in the Sustainability Appraisal Report⁸ and accepted at the hearing on 10 January that all were realistic options. The Council also conceded that not all the candidate and alternative sites were unacceptable on environmental grounds. It is not considered, therefore, that Denbighshire County Council has provided evidence to justify providing fewer units than required by the latest Welsh Government projections.
9. The Council were not able, at the hearing on 10 January, to indicate what account had been given to the need for affordable housing in the formulation of the LDP's housing target. The Council's track record in the provision of affordable housing is acknowledged and is to be commended but the evidence submitted to the hearing on 17 January casts serious doubt on the LDP's ability to achieve its target of 2,250 to 3,000 affordable homes by 2021. The undisputed need for affordable

² IP002, Table 3

³ Although there was a change in methodology between 2006 and 2008, a study commissioned by Conwy County Borough Council concluded that there was limited scope to challenge the 2006 projections (IP002, paragraph 3.2.10)

⁴ IP002, Table 2

⁵ EB002

⁶ IP002, paragraph 3.2.9

⁷ EXAM004 Sup A7

⁸ DLDP004

housing in Denbighshire weighs against deviating below the number of units required by the Welsh Government's latest projections.

Supply

10. Table 5 in IP002 indicates a potential supply of 7,771 dwellings but the evidence submitted to the examination casts serious doubts regarding whether the LDP would deliver its target of 7,500. If the proposed Key Strategic Site at Bodelwyddan (KSS) is found to be sound and if the LDP is adopted in the autumn of 2012, it is common ground that the first houses would not be completed on the KSS until 2014 at the earliest (9 years into the plan period). In EXAM0069 the Council states that; '*At its peak, market sales are expected to reach 175dpa*'. Even if the KSS were to deliver at this rate from 2014 to 2021 (which seems highly unlikely) it would only deliver 1,225 dwellings by 2021 (490 below the number allocated).
11. It is, therefore, unlikely that the KSS will deliver the total amount of housing allocated by 2021. In addition, the major source⁹ of planned new housing in the LDP will not make any contribution to meeting its target until 2014.
12. Turning to other allocations, questions are raised regarding the redevelopment of the HM Stanley Hospital and whether the Ocean Plaza site in Rhyl will deliver the anticipated 230 units¹⁰. The Council has produced evidence regarding the deliverability of other allocations in the plan, the majority of which is unchallenged but a potential supply of 7,771 compared to a target of 7,500 leaves little room for slippage (a contingency of only 4%). This raises grave concerns regarding the flexibility of the LDP to deal with the delay to or failure of allocations to come forward.
13. The 7,771 includes 1,795 from identified urban potential sites and 505 from conversions and windfalls¹¹. Although separated in the Council's calculations, all these types of site are classed as windfalls and around 31% of the Plan's target of 7,500 is made up of such sites (30% of 7,771). Looking at the summary and detailed phasing tables in EXAM004 Sup A7; 2671 units in phases 2 and 3 would be provided through windfalls. That is 35% of the overall provision and 42% of the amount yet to be built if 7,500 is to be achieved by 2021.

LDP Target	7,500
Less completions 2006-11	1,205
Leaves	6,295
Less	
Phase 2 allocations	1,331
Phase 3 allocations	2,293
Leaves	2,671 on windfall sites

⁹ The KSS represents around 51% of the houses allocated in the LDP

¹⁰ EXAM0038.A

¹¹ IP002, Table 5

14. The Council's figures in IP002 and EXAM004 Sup A7 differ but both indicate that at least 30% of the target would be met by windfalls. The Council conceded at the hearing that there has been some double counting and that some of the smaller sites may be subject to Policy PSE 2 which seeks to protect existing employment sites and could prevent some sites coming forward for housing. Further, the Council's own evidence shows that the completion rate on urban capacity sites is 120 dwellings per annum¹². At such a rate such sites would only provide 1,080 new homes between 2012 and 2021.
15. The Council argue that the completion rate on urban potential sites could improve. Although it is not unreasonable to assume that market conditions will change over the life of a plan, only 9 years remain in the life of this LDP. One hopes that the economy will improve but, if it does, will it be soon enough to make a material difference in the number of windfall sites coming forward?
16. The Council is yet to receive the Welsh Government's response to its Statement of Common Ground in relation to the 2011 Joint Housing Land Availability Study¹³. In that document the Council indicates that it has a land supply for housing of 4.52 years. Some argue that it is much lower but there can be no dispute that the supply of housing land in the county does not meet the requirements of PPW or TAN 1.
17. The number of units to be provided on each site is based on an assumed density of 30 dwellings per hectare. PPW¹⁴ says that LDPs should include policies to cover density (amongst other things). The Council should be aiming to increase densities in sustainable locations. However, despite the Council's assertions at the hearing that higher densities would be sought where appropriate, the LDP is silent in this regard. There is no guarantee, therefore, that higher densities would be achieved (and, therefore, more units built than anticipated in Table 5 of IP002).

Conclusion

18. PPW states that the latest Welsh Government local authority level Household Projections for Wales should form the starting point for assessing housing requirements. An analysis of the housing projections indicates that the starting point for the LDP should be between 8,400 and 8,586 units (these figures do not include a contingency). The Council has failed to produce convincing evidence to justify deviating below the latest household projections. The need for affordable housing in Denbighshire weighs against allocating less than that indicated by the latest household projections.
19. A potential supply of 7,771 units compared to a target of 7,500 raises significant concerns regarding the ability of the LDP to deal with

¹² IP002, paragraph 3.3.3.

¹³ EXAM0027

¹⁴ PPW, paragraph 9.2.12

changes in circumstances. This is particularly worrying when the evidence submitted to the examination regarding the rate of delivery of units on the KSS, the delivery of other allocations and windfall sites casts serious doubt over the ability of the LDP to deliver its target of 7,500 units.

20.The Inspectors, therefore, are concerned that, in respect to this issue, the LDP fails to have regard to national policy (Test C2) is not founded on a robust evidence base (Test CE2) and is not reasonably flexible to deal with changing circumstances (Test CE4).

Suggested ways forward

21.In order to address this potential finding of unsoundness the Council could:

- Provide additional evidence to justify not meeting the Welsh Government's household projections and provide further evidence to substantiate the contention that the LDP would deliver its target of 7,500 units.
- Allocate additional sites in the LDP to meet the identified shortfall.

22.The Council is invited to consider the above and provide a response at a meeting which it is hoped will be convened on 9 February 2012. The venue and time of the meeting will be published on the examination web site as soon as details are confirmed.

23.The meeting will be open to the public but, given that it is being convened to explore ways forward with the Council, participation will be limited to representatives of Denbighshire County Council and the Welsh Government.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Denbighshire Local Development Plan EXAMINATION

www.denbighshire.gov.uk/lpexam

Housing: Need and Supply, Inspectors' findings

1. EXAM0075 set out the Inspectors' preliminary findings on matters of housing need and supply. The Council's response, EXAM0075R (revised) was subject to consultation and the new evidence it contained was discussed at a Hearing on 23 May. That evidence has been considered and the purpose of this note is to inform the Council of the Inspectors' initial findings with regard to housing need and supply and to provide an opportunity for the Council to consider ways forward.
2. For reasons that will be set out in our final report to Denbighshire County Council, we consider that the Council has produced evidence to support the target of 7,500 units set out in Policy BSC1.
3. However, and again for reasons that will be set out in our final report, we are not persuaded that the Local Development Plan (LDP) will deliver this number of units by the end of the plan period. Our analysis of the evidence submitted to the examination indicates that the LDP is likely to deliver around 6,450 units by 2021. A further 1,050 would, therefore, have to be allocated to meet the LDP's target (this would not provide a contingency).
4. It is our view that unless provision is made for the allocation of at least 1,000 additional houses the LDP will fail to meet the needs of Denbighshire to 2021. It will not have regard to national policy (Test C2) it will not be founded on a robust evidence base (Test CE2) nor will it be reasonably flexible to deal with changing circumstances (Test CE4).
5. The allocation of additional sites outside the list of potential sites in EXAM0075R(revised) would require further consultation. Additional work is also likely to be required with regard to strategic environmental assessment and sustainability appraisal.
6. The Council is invited to consider the above and provide a response by 22 June 2012. The Inspectors are aware that officers may need to seek the views of members before providing a response. If this is the case the Inspectors would appreciate an indication of when the Council will be in a position to provide a substantive response by 22 June.
7. The date of the submission of our report to the Council for fact check (6th July) was announced at the end of the last hearing on 24 May. That announcement will be reviewed after 22 June.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i:	Cyngor Sir
Dyddiad y Cyfarfod:	10 Gorffennaf 2012
Aelod Arweiniol/Swyddog:	Cynghorydd Julian Thompson-Hill
Awdur yr Adroddiad:	Pennaeth Cyllid ac Asedau
Teitl:	Alldro Refeniw Terfynol 2011/12

1 Beth yw testun yr adroddiad?

1.1 Mae'r Cabinet wedi derbyn adroddiadau monitro rheolaidd drwy'r flwyddyn ariannol ar berformiad gwariant yn erbyn y gyllideb a'r arbedion y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ynghyd â'r argymhellion ar gyfer trin gweddillion diwedd y flwyddyn. Bydd drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynnyddol ar gyfer 2011/12 yn cael ei gyflwyno i archwiliwr allanol ar 30 Mehefin. Bydd y cyfrifon a archwiliwyd wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

2 Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Yn ôl cyfansoddiad y Cyngor, mae'n rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo sefydliad, defnydd a chyfraniadau i gronfeydd ariannol wrth gefn.

3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r sefyllfa alldro refeniw terfynol ar gyfer 2011/12

3.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r modd o drin y cronfeydd a'r gweddillion fel y manylir yn yr adroddiad hwn.

4 Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r sefyllfa alldro ariannol cyffredinol ar gyfer 2011/12 yn dangos tanwariant yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd. Mae hyn, ynghyd â chynnydd yn y derbyniadau o Dreth y Cyngor, yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor. O ganlyniad, mae'n bosibl gwneud argymhellion ar gyfer trosglwyddo arian i gronfeydd penodol a fydd yn parhau i gynorthwyo'r Cyngor i ymdrin â phwysau ariannol dwys yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd hefyd yn helpu adeiladu cynhwysedd i sicrhau buddsoddiad i ysgolion yn y dyfodol.

4.2 Ceir manylion ynghylch ffigurau'r Alldro Refeniw terfynol yn Atodiad 1. Mae'r sefyllfa derfynol ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yn dangos tanwariant o £1.6m. Roedd gwariant ar ysgolion £223k dan y gyllideb ddirprwyedig.

- 4.3 Mae'r sefyllfa alldro i gyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol £603k yn uwch na'r hyn a adroddwyd i'r Cabinet ym mis Mawrth. Digwyddodd y symudiad mwyaf sylweddol o fewn Gwelliant a Chynhwysiant Ysgolion lle'r oedd penderfyniadau hwyr ynghylch gwariant cymwys o fewn nifer o gynlluniau grant yn golygu bod modd hawlio am wariant a gododd yn ystod y flwyddyn a chael grantiau i dalu amdanyn nhw. Ymhellach, roedd gostyngiad yng nghostau lleoliadau arbenigol tuag at ddiwedd y flwyddyn. Roedd datblygiadau'r ddau fater hwn werth oddeutu £300k.
- 4.4 Tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gwelliant sylweddol yn sefyllfa'r ysgolion sydd ag anawsterau ariannol, ac mae hyn wedi cyfrannu tuag at welliant sylweddol cyffredinol yn y sefyllfa o ran ysgolion. Mae hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar symudiad o ran gweddillion ysgol yn ystod y flwyddyn. Roedd gwariant o gyllidebau dirprwyedig ysgolion £223k yn is na lefel cyfanswm y cyllidebau fformiwla LMS cyffredinol, ac felly mae gweddillion ysgolion wedi cynyddu'r un faint. Ceir manylion ar weddillion ysgolion unigol yn atodiad 3. Mae cyfanswm gweddillion ysgolion bellach yn £1.808m.
- 4.5 Mae gwasanaethau yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer sicrhau arbedion yn y dyfodol, a dechreuodd effaith ariannol rhai o'r cynigion hyn ddwyn ffrwyth tuag at ddiwedd 2011/12. Roedd y cyngor wedi gosod cyllideb i wneud cyfraniad o £300K at weddillion, ac yn unol ag adroddiadau blaenorol, tybid mai dyma'r sefyllfa alldro terfynol
- 4.6 Mae gwybodaeth bellach ynghylch alldro gwasanaethau fel a ganlyn:

Cynllunio a Pherfformiad Busnes - mae'r mwyafrif o'r tanwariant yn gysylltiedig â'r gyllideb sy'n cefnogi'r grant Cymorth. Mae gan y cyngor gyllideb graidd sy'n cefnogi'r cyllid grant sydd wedi dechrau dirwyn i ben ac sydd i'w olynu gan y grant Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd tanwariant hefyd ar gyllideb y Tîm Rheoli Project o ganlyniad i godi tâl ar fwy o gostau nag a gynlluniwyd i projectau.

Mae'r tanwariant yng **Ngwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** wedi dod i fodolaeth oherwydd i arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2012/13 gael eu gwireddu'n gynnar.

Cyllid & Asedau - mae'r tanwariant yn cynnwys £6k yn yr Adran Gyfrifeg, £4k yn Refeniw & Budd-daliadau a £26k yn Archwilio. Mae'r swm olaf wedi'i glustnodi i ariannu costau yn gysylltiedig gyda cholli cytundebau allanol yn 2012/13. Roedd y tanwariant yn y gyllideb Eiddo yn £105k sy'n adlewyrchu costau is drwy'r flwyddyn ac incwm ychwanegol a enillwyd drwy ffioedd a godwyd ar brosiectau. Mae'r gyllideb Eiddo yn cynnwys y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw heb ei datganoli lle'r oedd y tanwariant yn £38k.

Priffyrdd ac Isadeiledd - roedd tanwariant o £261k, sydd yn unol gyda'r rhagolygon dros chwarter olaf y flwyddyn. Mae'r sefyllfa yn cynnwys gorwariant ar gyllidebau cynnal a chadw priffyrdd (£202k) ond tanwariant ar gyllidebau prosiectau mawr (£144k), rheoli rhwydwaith (£55k) a rheoli fflyd (£55k). Mae cynigion ar gyfer defnyddio'r gweddillion sy'n cael eu dwyn ymlaen yn cynnwys arian refeniw i brosiect Harbwr y Foryd, newid y slotiau

arian ar beiriannau tocynnau parcio (i gymryd y darnau 5c a 10c newydd) ac ariannu costau yn gysylltiedig ag ymweliad y Ffagl Olympaidd.

Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio & Rheoleiddio - mae mwyafrif y tanwariant a gofnodwyd (£100k) yn ymwneud â chyllideb 2011/12 i'r Cynlluniau Tref/ Rhagleni Agosach i'r Gymuned; cytunwyd y dylid symud y rhain ymlaen i 2012/13.

Gwasanaethau Oedolion - er bod yr alldro yn gytbwys, fel rhan o'r strategaeth gyllideb gytunedig, mae arian grant Cefnogi Pobl o £100k heb ei ddefnyddio. Bydd y grant Cefnogi Pobl yn cael ei gwtogi 4% yn 2012/13 a 2013/14 a 5% ymhob un o'r tair blynedd ddilynol. Mae'r gweddill grant sydd ar ôl wedi'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn grant cefnogi pobl (£731k) fel rhan o'r strategaeth y cytunwyd arni drwy'r broses herio gwasanaeth i ariannu pwysau o fewn gofal cymdeithasol i oedolion yn y dyfodol - gan gynnwys effaith capio taliadau ar gyfer gofal dydd, codiadau yn ffioedd gofal preswyl a chynnydd cyffredinol yn y galw am wasanaethau.

Mae'r tanwariant bach yn **Hamdden, Llyfrgelloedd a Datblygiad Cymunedol** yn cynnwys gorwariant yn y gyllideb Theatr Pafiliwn (£91k) er bod mesurau wedi'u cymryd i sicrhau bod hyn yn cael ei unioni yn 2012/13. Etifeddodd y gwasanaeth orwariant o £86k ar gyllideb Pafiliwn Llangollen yn 2010/11 ond llwyddwyd i sicrhau tanwariant eleni o £21k.

Mae'r tanwariant yn **AD Strategol** yn ganlyniad i swyddi gwag yn lechyd & Diogelwch a llai o wariant ar gyllidebau hyfforddi.

Mae'r tanwariant yng **Ngwasanaethau Cwsmeriaid** yn cynnwys arbedion ar nifer o swyddi gwag o fewn y cyllidebau TGCh a Gofal Cwsmeriaid.

Mae'r tanwariant yn **Amgylchedd** yn cynnwys arbedion yn y Cynllun Tymor Canolig 2012/13 yn cael eu gwireddu yn gynt na'r disgwyl. Hefyd, mae newidiadau i reoliadau gweithlu asiantaethau yn ystod y flwyddyn wedi cyfrannu at yr arbedion.

Mae'r tanwariant ar gyllidebau **Corfforaethol** wedi cynyddu £100k o'r ffigur a gofnodwyd eisoes, ac mae nawr yn £306k. Mae'r tanwariant wedi dod i'r amlwg oherwydd bod gwariant corfforaethol ar ôl-daliadau pensiwn, taliadau banc a ffioedd archwilio yn is na'r disgwyl. Mae llinell y gyllideb gorfforaethol yn cynnwys y cyfraniad a gyllidebwyd i gronfeydd wrth gefn o £300k.

- 4.7 Mae'r sefyllfa o ran derbyniadau o **Dreth y Cyngor** wedi cael ei heffeithio gan gynnydd yn nifer yr anheddau yn y Sir, ynghyd â lefel uchel iawn o gasglu treth (98% sy'n debygol o fod yr uchaf yng Nghymru). Pan osodwyd y cyllidebau, credwyd y byddai yna ostgyniad yng nghyfraddau casglu o ganlyniad i'r darlun cyffredinol economaidd anodd, ond mae'r cyngor wedi parhau i gynnal graddfa gasglu uchel, sy'n dipyn o gamp.
- 4.8 Wrth gyfrifo Sail Treth y Cyngor, rhoddwyd ystyriaeth i nifer yr adeiladau newydd, a defnyddiwyd hynny adeg Gosod y Gyllideb i gyfrifo lefel Treth y Cyngor ar Fand D. Defnyddiwyd yr un ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo lefel ariannu'r llywodraeth drwy RSG i'r flwyddyn. Roedd angen

cynllunio'n ofalus gan y byddai gor-amcanu'r sail treth wedi arwain at lai o arian o gyfeiriad y llywodraeth.

- 4.9 Fel y nodwyd trwy'r flwyddyn, credwyd y byddai lefel derbyniadau terfynol Treth y Cyngor yn fwy na'r amcangyfrifon gwreiddiol a ddefnyddiwyd adeg gosod y gyllideb. Mae cyfanswm terfynol y derbyniadau £351k (0.9%) yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, ac felly mae'r Cyngor wedi manteisio ar hyn.
- 4.10 O ystyried y sefyllfa yn ei chyfanwydd o fewn gwasanaethau, cynigir nawr bod adrannau yn dwyn ymlaen unrhyw symiau o danwariant net yn llawn er mwyn eu cynorthwyo i weithredu strategaeth gyllidebol 2012/13. Bydd gofyn i adrannau esbonio'n fanwl sut gaiff gweddillion sy'n cael eu dwyn ymlaen eu defnyddio yn 2012/13 yn yr Adroddiad Ariannol i'r Cabinet yng Ngoffennaf.
- 4.11 Mae'r sefyllfa derfynol yn golygu bod gan y cyngor swm unigol o £600k ar gael. Mae hyn yn gamp sylweddol ac mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol. Cynigir bod y swm hwn yn cael ei ddefnyddio i adeiladau cronfeydd arian parod i gyfrannu at raglen gyfalaf Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.
- 4.12 Mae nifer o gyfraniadau eraill i, ac o Gronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau wedi cael ystyriaeth o fewn y cyfrifon. Ceir manylion amdanynt yn Atodiad 2 a bydd arnynt angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn. Mae symudiadau at gronfeydd sydd heb gael sylw eisoes yn cynnwys.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae rheoli cylidebau refeniw a chyfalaf y cyngor, a gweithredu'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i holl feysydd, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

